# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Committee Room 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Ionawr 2021

Amser: 10.00 - 10.26

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11063

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)717 – Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)702 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(5)707 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(5)721 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(5)724 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael at Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(5)725 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) (2021)

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.6 SL(5)723 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.7 SL(5)726 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.8 SL(5)703 – Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(5)719 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 5.1 SL(5)722 - Cyfarwyddiadau Gofal Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio Brechlyn Rhydychen/AstraZeneca COVID-19) 2020

Trafododd y Pwyllgor y Cyfarwyddiadau a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 6.1 WS-30C(5)27 - Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Dynodyddion Organig) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Gweithdrefnau, Tŷ'r Cyffredin: Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin a'r cyfansoddiad tiriogaethol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Gweithdrefnau yn Nhŷ'r Cyffredin

### 7.2 Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Her gyfreithiol i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad gan Lywodraeth Cymru.

### 7.3 Llythyr gan y Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru, Comisiwn y Gyfraith: Papur ymgynghori ar ddyfodol tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru. Mewn sesiwn breifat, cytunodd y Pwyllgor i ymateb i'r llythyr a'r cynnig amgaeedig ynghylch yr ymgynghoriad.

### 7.4 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, a oedd yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Orchymyn arfaethedig Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021. Nododd hefyd fod Gorchymyn drafft Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021 bellach wedi'i osod.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Amgylchedd – trafod yr adroddiad drafft

Nododd y Pwyllgor y ffaith na chafwyd ymateb gan y Gweinidog hyd yma i'w lythyr dyddiedig 23 Rhagfyr 2020. Yn sgil hynny, cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Pwyllgor Busnes ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

## 10 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – y wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.